

4. GORCHFYGU'R CELTIAID

4.1 PRYD Y GORCHFYGWYD Y CELTIAID?

Dros gyfnod yn rhychwantu 650 mlynedd – rhwng 1095 a 1745, cafodd gwledydd Celtaidd canoloesol Llydaw, Cymru, Iwerddon, a'r Alban eu goresgyn a'u cymathu i wledydd Prydain a Ffrainc. Trafodir yma oresgyniadau'r Normaniaid ac Edward I, y Plantagênets a brenhinoedd Ffrainc, y Tuduriaid a'r Stiwartiaid, ac yn olaf yr Hanoferiaid.

Llyfryddiaeth Ddethol (* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- DAVIES, R. Rees. 1990. *Domination and Conquest: the Experience of Ireland, Scotland and Wales 1100–1300*. (Cambridge: CUP).
- LILLEY, Keith D. 2002. 'Imagined geographies of the 'Celtic Fringe' and the cultural construction of the 'Other' in medieval Wales and Ireland'. Yn David C. Harvey & Rhys Jones & Neil McInroy & Christine Milligan (goln). *Celtic Geographies: Old Culture, New Times*. (London: Routledge), 21–36.

4.2 LLYDAW (10G–18G)

Er ei bod wedi'i gwahanu ers canrif a mwy, cryfaodd dugiaeth Llydaw yn araf unwaith eto yn y 12G. Roedd y gogledd-ddwyrain, serch hynny, wedi'i dominyddu am amser maith gan y dugiaid Normanaidd a chan fod nifer o bendefigion Llydaw o'r ardal hon wedi helpu Gwilym Goncwerwr i orchfygu Lloegr, cawsant diroedd yno a chawsant eu ffrengigo. Mae'n debygol fod enciliad amlwg yr iaith Lydaweg i'r gorllewin yng ngogledd Llydaw – mewn cyferbyniaeth â ffin sefydlog yr iaith yn rhan ddeheuol y ddugiaeth – wedi digwydd oherwydd ffrengigo cynharach pendefigion y gogledd-ddwyrain drwy eu cysylltiad Normanaidd llwyddiannus.

Yn sgil olynu Conan IV, rheolwr brodorol olaf Llydaw, yn 1166 gan Geoffrey fab Harri II o Loegr, dechreuwyd ar gyfnod lle roedd dugiaeth Llydaw o dan reolaeth llinach frenhinol Ffrangeg ei hiaith (teuluoedd Plantagenet 1166-1213; Capetian 1213-64; Montfort 1365-1491). Enillodd y Ffrangeg dir yn hynod gyflym yn ystod y cyfnod hwn fel iaith masnach, llywodraeth ac ysgrifennu gan ddiraddio'r Llydaweg i statws y werin bobl. Bu i ryfeloedd ac anghydfodau bob yn hyn a hyn rhwng Llydaw a Ffrainc arwain at wladgarwch a hunaniaeth wleidyddol nad oedd perthyn dim i wahaniaethau ieithyddol. Y Dduges Anne oedd arweinydd annibynnol olaf Llydaw, ond ar ôl cael eu trechu'n filwrol yn 1491 fe'i gorfodwyd i briodi dau frenin Ffrainc ar ôl ei gilydd er mwyn i Lydaw barhau i fod yn gysylltiedig â choron Ffrainc. Ymgorfforwyd Llydaw yn ffurfiol yn

nheyrnas Ffrainc yn 1532, ond gan gadw hawliau taleithiol. Roedd pendefigion ac uchelwyr Ffrangeg Llydaw yn elwa o'r hawliau taleithiol hyn, ond fe'u diddymwyd yn 1789 adeg y Chwyldro Ffrengig ac ar ôl hynny nid oedd gwahaniaeth gwleidyddol rhwng Llydaw a Ffrainc. Mae darostyngiadau cynyddol Llydaw i ddylanwadau allanol dros nifer o ganrifoedd – ac yn wirfoddol i gryn raddau – yn debyg iawn i hanes yr Alban.

Ar ôl rhyfel cartref yn y 14G, cafodd Dugiaeth Llydaw gyfnod o ffyniant digyffelyb yn y 15G pan ddaeth cyfoeth i'r ardal yn sgil ei safle fel canolbwynt anorfod yn nhwff y fasnach forol rhwng gogledd Ewrop a Môr y Canoldir. Bryd hynny pentref pysgota Penmarc'h heddiw oedd un o'r porthladdoedd prysuraf yn Llydaw yn ystod y cyfnod, ond erbyn diwedd y 16G roedd Morlaix wedi cymryd ei le. Roedd cefn gwlad hefyd wedi elwa, ac mae nifer di-rif o eglwysi Gothig gwenithfaen gorllewin Llydaw yn dyst i'r cyfnod hwn o ffyniant a estynnodd i'r cyfnod modern. Arbedwyd Llydaw rhag llawer o'r rhyfeloedd crefydd a ddrylliodd Ffrainc yn y 16G hyd nes Rhyfel y Gynghrair Gatholig 1590-98 pan gynghreiriodd y llywodraethwr, Dug Mercoeur, â'r Sbaenwyr gan wneud Llydaw yn gadarnle'r Catholigion i ymladd yn erbyn yr arweinydd Protestannaidd Harri o Navarre. Ymwadodd Harri â Phrotestaniaeth yn y pen draw ac o ganlyniad i hynny enillodd goron Ffrainc i fod yn Harri IV gan ddod â sefydlogrwydd i'r wlad. Er gwaetha'r ffaith nad oedd Protestaniaeth wedi gwneud fawr o gynnydd o gwbl yn Llydaw, yn y 17G bu ehangu grymus ar y Gwrthddiwygiad drwy golegau Jeswitiaid a aeth ati (o dan Michel Le Nobletz) i wneud cyfnod hir o waith cenhadol yng nghefn gwlad Llydaw gan sicrhau fod arferion y werin yn Llydaw (oedd yn llac ar brydiau) yn cydweddu'n well ag athrawiaeth y Gwrthddiwygiad. Roedd cysylltiad Llydaw â Chatholigiaeth, heb ei halogi gan Brotestaniaeth, eisoes wedi'i sefydlu yn y 17G. Cefnogai'r Jeswitiaid y Llydaweg gan ei bod yn ynysu'r boblogaeth rhag llenyddiaeth hereticaidd, ac o dan Julien Maunoir diwygiodd y Jeswitiaid yr orgraff a chyfundrefnu'r gramadeg. Er mwyn hyrwyddo ei ryfeloedd niferus, camddefnyddiodd Louis XIV ei bwerau drwy godi trethi yn Llydaw, gan ysgogi gwrthryfel y werin yn 1675 yn Cornouaille, o'r enw 'Gwrthryfel y Boneti Coch', ond cafodd ei ddarostwng yn llym. Yn 1720 cafodd cynllwyn aristocrataidd dan arweiniad Ardalydd Pontcallec hefyd ei rwystro. Er bod ganddynt gymhellion gwahanol iawn, ysgogodd y gwrthryfeloedd hyn i dalaith Llydaw gael rhyddfrefiniau (*liberties*), megis ystadau taleithiol Llydaw yn Rennes, a lwyddodd i gryfhau eu pwerau yn y 18G, yn dilyn canoli nerthol ar deyrnasiad Louis XIV. Erbyn y 1760au roedd dadl ffyrnig rhwng yr Ystadau a chynrychiolydd brenin Ffrainc, sef Dug Aiguillon, ynghylch rhagorfreintiau'r brenin a'r Ystadau. Hyrwyddai'r Ystadau eu hannibyniaeth rhag ymyrraeth frenhinol drwy gefnogi dehongliadau hanesyddol a ddangosai nad oedd Llydaw yn wreiddiol yn rhan o deyrnas Ffrainc a sefydlwyd yn Clovis yn 486 ar adfeilion Gâl. Roedd apolegwyr brenhinol brenin Ffrainc yn mynnu i'r gwrthwyneb. Atafaelwyd copïau o *Histoire de Bretagne* 1582 gan

Bernard d'Argentré, oedd yn aelod o'r Ystadau, a'u sensro gan orchymyn brenhinol. Yn yr un modd ymddengys fod cyhoeddi geiriadur Llydaweg gwyh Le Pelletier wedi'i farwolaeth yn 1752, wedi'i sybsideiddio gan yr Ystadau, yn wedd ddiwylliannol ar y frwydr hon i gael rhyddfrefnoliau taleithiol i Lydaw. Mae'n werth pwysleisio mai pendefigion ac arbenigwyr cyfreithiol Ffrangeg eu hiaith oedd yr Ystadau ac nad oeddynt yn gyffredinol yn gefnogol i'r Llydaweg, a oedd bryd hynny ar ei ffordd i ddod yn iaith wedi'i chyfyngu i'r werin gan fod pendefigion llai gorllewin Llydaw hyd yn oed bryd hynny wrthi'n rhoi'r gorau iddi.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- TONNERRE, Noël-Yves. 1998. 'Celtic literary tradition and the development of a feudal principality in Brittany'. Yn Huw Pryce (gol.) *Literacy in Medieval Celtic Studies*. (Cambridge: Cambridge University Press), 166–82.
- EVERARD, Judith. 2000. *Brittany and the Angevins: Province and Empire 1158–1203*. (Cambridge: Cambridge University Press).
- JONES, Michael C. E. 1987. *The Creation of Brittany: Late Mediaeval State*. (London: Hambledon Continuum).

4.3 CYMRU (11G–15G)

Os gorchfygwyd Lloegr gan y Normaniaid Ffrangeg dan arweiniad Gwilym Goncwerwr o fewn chwe mis i Frwydr Hastings yn 1066, fe gymerodd hi hyd 1282, dros ddwy ganrif yn ddiweddarach, cyn y trechwyd Cymru yn y diwedd gan frenhinoedd Lloegr. Yn wir bu gwrthryfelodd pwysig gan y Cymry yn 1294 a 1316 yn ogystal â gwrthryfel cenedlaethol a fu bron â rhyddhau Cymru gyfan yn y blynyddoedd 1400–10.

Mae natur ymyrraeth yr Eingl-Normaniaid (y Saeson yn ddiweddarach) ym myd y Cymry brodorol yn frwydr epig debyg i'r ymdrech diweddarach i 'ennill y gorllewin' yng Ngogledd America pan gafwyd cyfres o wrthdroadau pwysig yn ffawd a hanes y ddwy ochr. Aeth Gwilym Goncwerwr ati'n gyflym i sefydlu tair iarllaeth bwerus yng Nghaer, Amwythig a Henffordd i warchod Lloegr rhag y Gymru annibynnol. Ac yn wir, yr ieirll hyn a'u dilynwyd a ddechreuodd y goncwest dameidiog ar y Gororau. Y deyrnas gyntaf yng Nghymru i syrthio i'r goresgynwyr oedd un fechan Gwent erbyn 1071 ac erbyn y 1080au, yn sgil dal ei brenin, roedd Gwynedd o dan reolaeth y Normaniaid. Parhaodd y teyrnasoedd Cymreig eraill yn gyfan fwy neu lai ac roedd Gwilym Goncwerwr yn fodlon â chael gwrogaeth Rhys ap Tewdwr, brenin y Deheubarth. Er hynny, yn dilyn marwolaeth Gwilym yn 1087, teimlai'r barwniaid Eingl-Ffrengig fod ganddynt rwydd hynt i ymosod fel y mynnant ar deyrnasoedd Brycheiniog, Morgannwg a'r Deheubarth ac yn 1093 bu farw Rhys ap Tewdwr wrth geisio'u gwrthsefyll. Ac felly i genhedlaeth ar ôl 1066

ymddangosai petai Cymru gyfan – oni bai am Bowys oedd wedi cynghreirio â'r concwerwyr – o dan y Normaniaid. Ond nid felly yr oedd hi gan i'r union deulu hwn oedd yn rheoli Powys arwain gwrthryfel oedd yn bur lwyddiannus yn 1096 a llwyddodd Gruffudd ap Cynan, brenin Gwynedd, i ddianc oddi wrth y rhai a'i daliai ac adsefydlu ei reolaeth dros Wynedd a gorchfygu'r Normaniaid yn 1098 gyda chymorth Magnus Droednoeth o Norwy. Cafwyd gwrthryfel arall yn 1035 a welodd y Cymry yn adennill tiriogaeth oddi wrth y Normaniaid.

Er hynny, methodd atgyfodiad y Cymry yng nghanol y 1090au a'r 1030au i symud y goresgynwyr o ardaloedd y dwyrain a'r de, ac felly dyma ddechrau'r hen rwyg rhwng ardaloedd y gororau i'r de a'r dwyrain a'r ardaloedd annibynnol – sef tywysogaeth Cymru yn ddiweddarach, dan reolaeth Coron Lloegr – yn y gogledd a'r gorllewin. Arweiniodd y rhaniad hwn rhwng 'Pura Wallia' y gorllewin a gweddill y wlad – lle roedd Seisnigo yn amlycach – at ddatblygiad dwy ardal wrthwynebol yng Nghymru ac a barhaodd am amser maith wedyn (ac sydd yn wir fel petai'n parhau hyd heddiw yn y gwahaniaeth rhwng y Gymru Gymraeg a'r ardaloedd mwy Seisnigaidd). Er bod goresgyn Cymru wedi bod yn bennaf yn waith gweision coron Lloegr, yn yr 1090au daeth brenin Lloegr ei hun yn fwy o ran o hynny er mwyn bod o gymorth i'w weision a hefyd, yn bwysig iawn, i ffrwyno eu rhyddid a allai dyfu i fod yn beryglus. Dechreuodd y brenhinoedd, gan ddechrau gyda Harri I, feddiannu cestyll ac arglwyddiaethau strategol er mwyn cadw rhyw lun o bresenoldeb brenhinol. Weithiau câi ardaloedd o'r fath eu rhoi i ffefrynnau'r brenin.

Mae hanes y berthynas rhwng y Gymru annibynnol a'r Normaniaid oedd yn prysur Seisnigo wedi hynny yn ymwneud mwyfwy â chrynhoi manteision milwrol a gwleidyddol yn nwylo brenhinoedd megis Harri II, John, Edward I ar y naill ochr ac arweinwyr mawr Cymru ar y llall, megis yr Arglwydd Rhys ap Gruffudd (†1197) o'r Deheubarth a'r Tywysogion Llywelyn ab Iorwerth (†1240) a Llywelyn ap Gruffudd (†1282) o Wynedd. Gellir gweld o deitlau'r rheolwyr diweddarach hyn ar Gymru bod eu statws wedi'u diraddio o fod yn frenhinoedd i fod yn dywysogion neu'n rheolwyr gan felly bwysleisio eu hisraddoldeb i frenhinoedd Lloegr a fynnai y dylid cydnabod eu goruchafiaeth dros arweinwyr Cymru.

Daeth yr Eingl-Normaniaid a'r Saeson â newidiadau niferus a phwysig i Gymru yn ystod y cyfnod hwn. Roedd dechreuad hyderus 'gwareiddiad Ewropeaidd' sy'n gysylltiedig â dadeni'r ddeuddegfed ganrif (ond a ddechreuodd yn yr unfed ganrif ar ddeg) wedi rhoi modd i'r Ffrancwyr a'r Saeson ystyried eu cymdogion ethnig i'r gorllewin – y Llydawyr, y Cymry, y Gwyddelod a'r Albanwyr – fel barbariaid, er gwaetha'r ffaith fod y bobl hyn wedi bod yn Gristnogion ers amser maith. Yn y cyfnod hwn cryfhawyd safle'r Pab fel prif awdurdod Eglwys y gorllewin ac roedd yr Eglwys wrthi'n mynd drwy ddiwygiad mawr. Daeth y diwygiad hwn o hyd i lawer o ddiffygion ymysg y clerigwyr yn y gwledydd Celtaidd gan roi esgus arall eto i'r Normaniaid ymyrryd ym materion y Cymry a'r Celtiaid brodorol eraill. Ar ôl gorchfygu tiriogaeth cymerai'r concwerwyr

Eingl-Normanaidd yr hen daleithiau Cymreig (*cwmwd*, *cantref*) – neu deyrnasoedd yn amlach na pheidio – gan fynd ati i sefydlu'r cestyll cyntaf yng Nghymru (mwnt pridd oedd ag amddiffynfeydd pren ar y dechrau ond fe'i hatgyfnerthwyd fwyfwy gan gaerau o garreg) ac o'r cestyll hyn y rheolid y tiriogaethau newydd eu trechu. Codwyd trefi cyntaf Cymru hefyd dan law'r un arglwyddi Eingl-Normanaidd, fe'u sefydlwyd fel arfer o dan gysgod castell, yn aml wedi'u hamddiffyn ac wastad wedi'u breintio â monopoli masnachol yn nhiriogaeth arglwyddiaeth. Roedd y preswylwyr awdurdodedig (*burgesses*) yn aml yn ddieithriad, ac yn aml gwaherddid y Cymry brodorol rhag preswyllo yn y trefi hyn. Mewn rhai ardaloedd gwledig – yr iseldiroedd mwyaf ffrwythlon fel rheol – daeth preswylwyr Saesneg newydd i gymryd lle'r brodorion, gan felly fod yn fath o lanhau ethnig (roedd y Saesonaethau hyn yn wrthgyferbyniad i ardaloedd brodorol arglwyddiaethau'r Cymry, lle cedwid arferion a chyfreithiau'r Cymry a lle byddai'r trigolion ond yn talu gwrogaeth flynyddol mewn gwartheg i arglwydd estron). Roedd broydd y Cymry ran amlaf yn ardaloedd yr ucheldir, megis Morgannwg a Sir Frycheiniog. Dros y canrifoedd, Cymreigiwyd llawer o'r Saesonaethau llai, ond mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn ne Sir Benfro, Gŵyr a Bro Morgannwg roedd ardaloedd helaeth o dir a gliriwyd yn llwyr o'u preswylwyr Cymraeg blaenorol (dyma darddiad y llysenw ar dde Sir Benfro fel 'Lloegr fach yng Nghymru').

Daeth mynachdai diwygiedig megis y Benedictiaid yn sgil concwest y Normaniaid ac yn aml caent eu gwobrwyo â thiroedd a oedd cyn hynny wedi bod yn eiddo i fynachdai brodorol. Yn ystod y 12G difeddiannwyd y clerigwyr brodorol i bob pwrpas gan y Normaniaid a gwelir y canlyniadau yn y rhwyg rhwng traddodiad llenyddol yr Hen Gymraeg a chonfensiynau llenyddol Cymraeg Canol wedi hynny dan ddylanwad y confensiynau Eingl-Ffrangeg (gallwn ond dyfalu am weithiau llenyddol Cymraeg a gollwyd yn ystod y cyfnod cythryblus hwn). Eto roedd un o'r mudiadau mynachaid diwygiedig, sef y Sistersiaid (a ddechreuodd o fynachlog Hendy-gwyn ar Daf yn 1140), yn deulu o fynachlogydd a sefydlwyd ledled y Gymru annibynnol ac roeddynt yn ffafriol i'r brodorion. I fynachdai'r Sistersiaid hyn y mae'r diolch i haen gyfoethog o lenyddiaeth Gymraeg draddodiadol oroesi i oesoedd diweddarach (brutiau, traethodynnau'r gyfraith, chwedlau, achau ac ati).

Yn sgil gorchfygu 'Pura Wallia' gan Edward I rhwng 1277-82, sefydlwyd Tywysogaeth Cymru, sef y rhan o Gymru a reolwyd yn uniongyrchol gan swyddogion y brenin. Roedd gweddill ardaloedd Cymru, yn y dwyrain a'r de, yn annibynnol ar frenin Lloegr a gorchfygwyd y tiroedd hyn fesul un dros ddwy ganrif gan arglwyddi Normanaidd neu Saesneg. Ceid Cyfraith y Mers, sef cyfraith a ddisgrifiwyd fel Cyfraith Hywel Dda drwy lygaid y Normaniaid, sef pa gymysgedd bynnag o reoliadau oedd yn gweddu orau i fuddiannau arglwyddi'r Mers; roedd yr arglwyddi hyn yn frenhinoedd lleol ym mhopeth ond enw ac roedd ganddynt hawliau teyrnaidd a neilltuwyd i'r

brenin yn Lloegr (*arglwydd pwll a phren* i ddefnyddio'r term canoloesol). Yn wahanol i Loegr, nid oedd cyfraith lywodraethol oedd yn gwahardd codi amddiffynfeydd neu gynnal rhyfeloedd preifat â'r Cymry rhydd neu arglwyddiaethau eraill. Roedd gan y Mers yr enw fod yn ororwlad ddigyfraith hyd nes ymgorfforwyd Cymru â Lloegr yn y 16G pan bennwyd siroedd ledled Cymru a gosodwyd Cyfraith Gyffredin Lloegr arni.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- CARR, A. D. 1995 *Medieval Wales*. (Basingstoke: Macmillan).
- *DAVIES, John. 2007. *A History of Wales*. (London: Penguin). (Penodau 4–5).
- DAVIES, R. Rees. 1975. 'Race relations in post-conquest Wales: confrontation and compromise'. Yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 32–56.
- DAVIES, R. Rees. 1987. *Conquest, Coexistence, and Change: Wales, 1063–1415*. (Oxford: Clarendon).
- DAVIES, R. Rees. 1992. *The Age of Conquest: Wales 1063–1415*. (Oxford: Oxford University Press).
- FULTON, Helen. 2005. 'Owain Glyn Dŵr and the uses of prophecy'. Yn *Studia Celtica* 39.105–21.
- REES, William. 1924. *South Wales and the March, 1284–1415: a Social and Agrarian Study*. (London: OUP).
- SUPPE, Frederick C. 1994. *Military Institutions of the Welsh Marches: Shropshire, A.D. 1066–1300*. (Woodbridge: Boydell).
- THORPE, Lewis (cyf.). 1978. [*Gerald of Wales:*] *The Journey Through Wales and The Description of Wales*. (Harmondsworth: Penguin).
- WALKER, David. 1990. *Medieval Wales*. (Cambridge: Cambridge University Press).
- *WILLIAMS, Gwyn A. 1985 *When was Wales? A History of the Welsh*. (London: Black Raven). (Penodau 4–5).

4.4 IWERDDON (12G–15G)

Mae hanes Lloegr yn gorchfygu Iwerddon yn digwydd mewn tair rhan dros bedair canrif, sef Goresgyniad Cyntaf (Eingl-Normanaid) ar Iwerddon yn yr Oesoedd Canol, a'r Ail Oresgyniad (y Tuduriaid) yn y cyfnod modern cynnar. Mae'r ddau gyfnod hwn o oresgyniadau wedi'u gwahanu gan gyfnod y 14G–15G y gellid ei alw'n gyfnod y Diwygiad neu Atgyfodiad brodorol Gwyddelig.

Cyn 1167, yr unig dramorwyr oedd wedi cael unrhyw effaith barhaol ar wleidyddiaeth Iwerddon oedd y Llychlynwyr a hwy oedd wedi sefydlu trefi masnachol yr arfordir sef Dulyn, Wexford, Waterford, Cork a Limerick (cyfeirid at y rhain weithiau fel yr Ostmen). Erbyn 1052, roedd yr holl ganolfannau masnachu tramor oedd yn annibynnol hyd hynny bellach i gyd yn ddarostyngedig i frenhinoedd Iwerddon. Eto parhaent i fod yn sianeli i ddylanwad Lloegr oherwydd eu cysylltiadau â chanolfannau'r Llychlynwyr a hwythau wedi cymhathu â'r diwylliant Saesneg; yn wir y Llychlynwyr oedd yn gyfrifol am ddatblygu masnach fôr Lloegr o

borthladdoedd megis Bryste. Gwelir y dylanwadau hyn yn y byd crefyddol wrth i esgobaethau gael eu sefydlu yn nhrefi masnachu'r Ostmen yn nechrau'r 12G ac wrth i'w hesgobion ymofyn am gysegriad gan Archesgob Caergaint, Lloegr. Yn ystod y ganrif honno bu i archesgobion Seisnig gymell brenhinoedd Iwerddon ar sawl achlysur i ddiwygio Eglwys Iwerddon, a daeth yr ymyrraeth hon yn un wleidyddol yn 1155 pan awdurdododd y Pab Seisnig Adrian IV i Harri II orchfygu Iwerddon "to proclaim the truths of the Christian religion to a rude and ignorant people". Mewn gwirionedd roedd Eglwys Iwerddon ei hun wedi dechrau ar ddiwygiad effeithiol ei hun o dan Sant Malachy (Gwyddeleg Modern: *Mael Maedóic*) yn y 1130au a'r 1140au pan bennwyd ffiniau pedair archesgobaeth a ffiniau esgobaethol yn ogystal â sefydlu am y tro cyntaf fudiadau mynachaid diwygiedig o'r cyfandir megis yr Awstinaid a'r Sistersiaid yn Iwerddon.

Er hynny, er gwaethaf pob ymdrech i ddiwygio, nid oedd Iwerddon yn y 12G wedi ffurfio'i hun yn deyrnas unedig ganoledig ac roedd yr ansefydlogrwydd gwleidyddol a ddeilliai o hyn yn rhy flasus i ddynion milwrol Ffrangeg Normanaidd oedd wedi gorchfygu Lloegr a Chymru (yn ogystal â Sisili a Phalesteina). Yr esgus a ddaeth â'r Eingl-Normaniaid i Iwerddon yn y pen draw oedd Diarmait Mac Murchada yn ffoi yn 1166. Roedd ef yn frenin de Leinster, ac aeth ati i ymgynnull cynghreiriaid i'w achos, a'r un blaenllaw ym mhlith y rhain oedd Richard Fitz Gilbert (a adwaenir fel Strongbow). Yn 1167 dychwelodd Diarmait i Iwerddon gyda chorff o farchogion Eingl-Normanaidd. Yn 1170 cyrhaeddodd Strongbow yntau gyda mwy o filwyr a gyda'i gilydd aeth y ddau arweinydd ati i ddal Waterford a Dilyn. Drwy briodi merch Diarmait, llwyddodd Strongbow i hawlio brenhiniaeth Leinster pan fu farw Diarmait yn 1171. Ysgogodd hyn i Harri II o Loegr ymyrryd gan ei fod yn amheus o arglwyddi Eingl-Normanaidd fel hyn oedd wedi rheoli'r rhan fwyaf o Gymru bron yn annibynnol o'u penarglwydd, brenin Lloegr. Glaniodd ef gyda'i fyddin ei hun y flwyddyn honno, gan dderbyn ymostyngiad Strongbow a brenhinoedd brodorol Iwerddon a oedd, yn ddigon dealladwy, yn ofidus rhag gorfod wynebu grym llawn y peiriant milwrol Eingl-Normanaidd oedd gan Harri II.

Llwyddodd ymweliadau Harri II a'i fab John yn 1185 a 1210 (yr ail fel brenin) ag Iwerddon i gynorthwyo wrth sefydlu grym llywodraeth brenin Lloegr yn Nulyn. Penodwyd Hugh de Lacy yn brif ustus y brenin yno yn 1171 (y cyntaf mewn rhes hir o raglawiaid neu lywodraethwyr Seisnig ar Iwerddon) ac roedd yr holl goncwestau cyn ac wedi hynny yn dibynnu ar reolaeth amrywiol o Ddilyn. Roedd yr ymyrryd gynnar dyngedfennol hon gan frenin Lloegr wedi golygu bod y rhwydwaith o swyddi (siroedd/*shires*) a drefnwyd yn ganolog wedi ffrwyno pŵer annibynnol y concwerwyr yn fwy trefnus yn Iwerddon nag y byddai byth yng Nghymru'r Oesoedd Canol. Er ei bod yn gryfach na'r hyn a geid yng Nghymru yn yr un cyfnod, prin fod y rheolaeth oedd gan y llywodraeth ganolog yn debyg i'r hyn a geid yn Lloegr ganoledig ar y pryd, gan fod yr hierarchaeth ffurfiol o bwerau yn tueddu i amrywio yn ôl cryfderau newidiol y

brodorion, y gorchfygwyr a'r llywodraeth. Parhaodd concwest yr Eingl-Normaniaid o Iwerddon wedi hynny ar gyflymder trawiadol gydag anogaeth – neu er gwaethaf – y rheolaeth a osodwyd gan y weinyddiaeth ganolog yn Nulyn. Yn niwedd y 12G, crëwyd arglwyddiaethau mawr ym Meath (De Lacy), Ulster (De Courcy), Munster (Butler, De Burgh). Yn wir, Connaught (Connaught) oedd yr arglwyddiaeth fawr olaf i'w threchgu yn 1227 gan Richard de Burgh (Bourke); roedd ei ewythr ef ar y pryd yn brif ustus yn Nulyn. Yn y 12G gelwid y rheolwyr Gwyddelig mwyaf pwerus yn frenhinoedd a'u tiriogaethau yn deyrnasoedd, a derbynnid y derminoleg hon gan y Saeson a brenhinoedd yr Alban (er y caent eu temtio yn aml i alw'r brenhinoedd brodorol hyn â'r term Lladin *reguli* 'brenhinoedd bychain'). Er hynny, roedd Edward I yn ofalus o'i ragorfraint frenhinol ac o'r cyfnod hwnnw bu ymdrech bendant gan swyddogion llywodraeth Loegr i wadu statws brenin i reolwyr Gwyddelig ac yn araf, ildiodd y rheolwyr hyn i ofynion y Saeson a rhoi'r gorau i honiadau brenhinol, yn gyntaf o ddiwedd y 14G ymlaen drwy gyfieithu *rí* yn 'dywysog' (Ll. *princeps*), ac yna o ddechrau'r 15G ymlaen drwy gefnu ar y *rí* ei hun am 'arglwydd' (G. *tighearna*).

Roedd cerbyd concro'r Eingl-Normaniaid yn dechrau colli stêm yn y 13G. Oni bai am rannau o'r de a'r dwyrain, roedd y concwest wedi ehangu yn fwy nag y gallai ymdopi ag ef, gydag ond ychydig o Saeson yn gwastrodi poblogaethau mawr o Wyddelod ac roeddynt yn debygol o'u disodli petai amgylchiadau'n caniatáu. Mewn nifer o ardaloedd priododd y gorchfygwyr y brodorion ac roedd gwendid awdurdod canolog yn golygu eu bod wedi meithrin agweddau tebyg i'r Gwyddelod brodorol a gallent fod mor anystywallt i'r llywodraeth ganolog ag unrhyw reolwyr Gwyddelig brodorol annibynnol. Dwysaodd y tueddiad hwn yn y 14G-15G gan felly roi bodolaeth i'r dywediad ffug-ganoloesol *Hiberniores Hibernis ipsis* ('mwy Gwyddelig na'r Gwyddelod eu hunain') a fathwyd gan yr ysgolhaig Pabyddol o'r 17G, John Lynch, ond a gaiff ei ystyried yn aml ar gam i gynrychioli daliadau ethnig canoloesol yn Iwerddon. Mae'r pwysau gweinyddol, cyfreithiol a siofinaidd oedd yn Iwerddon yr Oesoedd Canol yn golygu nad oedd yn fater syml i rywun anwybyddu eu tras, pa iaith bynnag y siaradent gan amlaf. Nid oes amheuaeth fod llawer o'r Saeson oedd wedi ymsefydlu yn Iwerddon, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig i ffwrdd o'r prif drefi a'r de-ddwyrain, yn fuan wedi dod yn hyddysg yn yr Wyddeleg – un enghraifft yw'r Iarll Gerald FitzGerald o Desmond (Gw. *Gearóid Iarla*) a farddonai yn yr Wyddeleg yn niwedd y 14G. Roedd Statudau Kilkenny 1367 yn deddfu – heb unrhyw effaith – yn erbyn "dirywiad" Saeson a fabwysiadai'r Wyddeleg, ynghyd â dillad ac arferion Gwyddelig. Serch hynny, parhâi'r rhaniad ethnig rhwng y Gwyddelod (Gw. *Gael*) a'r Saeson (Gw. *Gall* 'estron') yn gryf yn ogystal â rhwng Gwyddeligrwydd (Gw. *Gaeltacht*) a Saesonaeth (Gw. *Galltacht*), ac roedd y pwyslais o ran hyn rhwng ardaloedd lle roedd y gyfraith brehon frodorol mewn grym a'r ardaloedd lle roedd cyfraith gyffredin Lloegr mewn grym yn hytrach na rhwng defnydd ieithyddol. Megis yng

Nghymru, roedd y gorchfygwyr wedi addasu ardaloedd gweinyddol (Gw. *tuath*, *tír*) oedd eisoes yn bodoli i lunio eu harglwyddiaethau, sefydlwyd cestyll a threfi yn ardaloedd yr iseldir a gadawyd yr ucheldir neu ardaloedd ehangach yn ardaloedd Gwyddelig lled-annibynnol y disgwyliid iddynt dalu gwrogaeth flynyddol mewn gwartheg. Arweiniodd amgylchiadau ansefydlog o ryfela rhwng y brodorion a'r gorchfygwyr at ddatblygiad gwleidyddol llwythi neu *clan* ymysg y Gwyddelod a'r gwladychwyr; yn wir yng nghyfraith statudol y drefedigaeth, câi natur gorfforedig grwpiau ceraint (Ff. *lignage*, *nation*, Ll. *parentela*) ei gydnabod ynghyd â'r awdurdod personol yn hytrach nag awdurdod tiriogaethol oedd ynghlwm â hynny (mewn gwrthwynebiad i egwyddor ffiwdal ddominyddol a nodweddai gyfraith Lloegr a llawer o orllewin Ewrop ar y pryd). Mae terminoleg ddisgrifiadol y cyfnod am arweinwyr neu benaethiaid llwythi o'r fath (Gw. *taoiseach*, Ll. *dux*, S. *chieftain*, *captain*) yn pwysleisio eu swyddogaeth filwrol (er hynny, gallai'r termau hyn gyfnewid â'r rhai a ddynodai 'rheolwyr'). Ers o leiaf 1100, yr arfer oedd galw 'pennaeth' llwyth yn syml wrth gyfenw'r clan, ac erbyn diwedd y 14G gwelir y rhain yn cael eu defnyddio fel teitlau o bosibl oherwydd roedd hyn yn fwy derbyniol i'r Saeson na theitlau brenhinol, e.e. *Ó Néill* wedi'i seisnigo yn 'O'Neill'. Erbyn diwedd y 16G rhoddwyd mwy o werth ar 'gyfenwau' o'r fath yn aml fel teitlau na'r teitlau swyddogol (megis iarll) a roddwyd gan y weinyddiaeth yn Nulyn. Dywedir ynghylch Aodh ('Hugh') *Ó Néill*, er enghraifft, er y câi ei gydnabod yn swyddogol yn Iarll Tyrone, "he has evermore had a thirsty desire to be called O Neale – a name more in price to him than to be intituled Caesar."

Megis yng Nghymru, yn sgil concwest yr Eingl-Normaniaid daeth toriad yn y llenyddiaeth frodorol, toriad rhwng llawysgrifau olaf Gwyddeleg Ganol yn y 1160au a llawysgrifau cyntaf Gwyddeleg Fodern Glasurol yn niwedd y 14G. Meddiannwyd y mynachlogydd yn aml gan y gorchfygwyr ac roedd Eglwys Iwerddon wedi'i holli gan wrthdaro ethnig rhwng mynachod Gwyddelig a Seisnig (i ddyfynnu enghraifft, cyhuddwyd Mynaich Gwynion Granard yn 1318 o gyhoeddi nad oedd lladd Gwyddel yn bechod). O ddiwedd y 14G ymlaen ymsefydlodd urdd cardod Sant Ffransis – ac yn enwedig urdd cadwryddion Sant Ffransis – yn gangen grefyddol yr atgyfodiad Gwyddelig neu o leiaf yn gangen o'r Eglwys oedd yn fwyaf cydymdeimladol â dyheadau'r Gwyddelod a ddirmygid. Gan ei bod yn annibynnol ar hierarchaethau sefydledig urddau confensiynol, roedd urdd y Cadwryddion yn fudiadau deniadol i reolwyr a chlerigwyr Gwyddelig a brodorol; rhwng 1426 a 1540 sefydlodd cadwryddion Sant Ffransis 49 o gymunedau, ac mewn sawl achos roedd gan y rhain noddwyr brodorol Gwyddelig, felly hefyd oddeutu 150 o gymunedau mynachaid eraill (Awstiniad, Dominiciaid, Carmeliaid) a sefydlwyd ar ôl 1350.

Roedd y diwygiad brodorol yn erbyn y gorchfygwyr a'r gwladychwyr i'w deimlo'n gryf erbyn canol y 13G, wrth orchfygu Credran (1257) yn Connacht, Callan (1261) a Mangerton (1262) ym Munster, ac yn ymgais aflwyddiannus Brian *Ó Néill* o Tyrone (1260) i adfer uwch-frenhiniaeth

Iwerddon. Difrodwyd y drefedigaeth gan oresgyniad Albanaidd ar Iwerddon gan Edward Bruce (1315-18), a gwaethygodd pethau yn ystod y 14G, yn araf ac yn ddiwrthdro. Yn sgil marwolaeth iarll de Burgh o Ulster yn 1333, dychwelodd gogledd Iwerddon i fod yn deyrnasoedd Gwyddelig brodorol annibynnol a llwyddodd ardaloedd eraill a fu'n hir o dan reolaeth y gorchfygwyr i adfer eu hannibyniaeth, sef ardaloedd megis Offaly, Wicklow, gogledd Wexford, Carlow, a gogledd Tipperary. Nid oedd yr adfywiad Gwyddelig mor bendant yn Connacht ac ym Munster, ond roedd hyn ond oherwydd bod y gorchfygwyr yno – y De Burghs (Burkes) a'r FitzGerald o Desmond yn y drefn honno – wedi addasu i gymdeithas frodorol Wyddelig yn hytrach na gadael eu tir. O safbwynt y weinyddiaeth yn Nulyn, roedd y canlyniad yn ddigon tebyg, nid oedd Cyfraith Gyffredin brenin Lloegr yn estyn lawer y tu hwnt i ardal o'r enw Pale yng nghyffiniau Dulyn ei hun (gan felly sefydlu'r ymadrodd Saesneg “beyond the pale” i gyfleu anghymeradwyaeth at weithredoedd anghonfensiynol unigolion). Gellir cynnig sawl rheswm dros yr Adfywiad Gwyddelig, sydd yn ymwneud cymaint â gwendid y drefedigaeth Saesneg ag ydyw ag unrhyw gryfder adnewyddedig o du'r Gwyddelod brodorol. Roedd brenhinoedd Lloegr wedi tueddu i esgeuluso'r drefedigaeth, gan ganolbwyntio ar eu rhyfeloedd yn yr Alban ac yna yn Ffrainc. Roedd y tiroedd eraill oedd yn parhau'n annibynnol yn y gorllewin yn llai ffafriol i'w trin ac ymhellach o'r canolfannau masnach. Roedd y Gwyddelod brodorol wedi ymgyfarwyddo mwy â'r sgiliau brwydro oedd eu hangen i drechu eu gorchfygwyr ac o ganol y 13G roeddynt wedi dechrau cyflogi *gallowglasses* (Gw. *gallóglai*), sef milwyr tâl arswydus o'r Alban, ac mewn rhai achosion sefydlodd y rhain linachau brenhinol lleol hiroesol. O'r 13G ymlaen bu dirywiad yn y tywydd gan effeithio yn enwedig ar dde-ddwyrain yr ynys a oedd wedi'i gwladychu, ac effeithiodd pla 1349 (y 'Pla Du') hefyd ar boblogaeth drefol Seisnig yn fwy na'r boblogaeth Wyddelig fugeiliol wasgaredig. Y canlyniad oedd bod Iwerddon erbyn diwedd yr Oesoedd Canol – o safbwynt gweinyddiaeth ganolog Lloegr – angen menter gwbl newydd o ran mynd ati i'w gorchfygu.

4.5 IWERDDON (16G–17G)

Adroddwyd yn 1515 wrth sôn am Iwerddon “there be more than sixty countries, called regions, in Ireland, inhabited with the King's Irish enemnies ... where reigneth more than sixty chief captains” a hefyd “there is more than thirty great captains of English noble family, that followeth the same Irish order and keepeth the same rule.” Erbyn diwedd y 15G daeth yn arfer cyfarwydd i gadw'r arglwyddi Gwyddelig anystywallt hyn dan reolaeth gan Iarll pwerus Cildara (Kildare), ond gwelwyd y camddefnyddio anochel a ddaeth yn sgil rhoi cymaint o bŵer i un

dirprwy yng ngwrthryfel Cildara 1534. Ar ôl rhoi diwedd ar y gwrthryfel, yn unol â'r awydd cynyddol i ganoli popeth oedd yn nodweddiadol o'i deyrnasiad, sicrhaodd Harri VIII y byddai ei ddirprwy-lywodraethwyr yn Iwerddon ond yn gweithredu buddiannau'r llywodraeth. Yn 1541 cyhoeddwyd Harri VIII yn Frenin Iwerddon gan senedd y drefedigaeth (yn hytrach nag yn Arglwydd fel oedd wedi bodloni brenhinoedd Lloegr blaenorol). Dilynwyd hyn yn 1543 gan ad-drefnu cyfansoddiadol ac yn yr ad-drefnu hwn rhoddwyd pwysau ar arglwyddi brodorol Iwerddon, a'u denu, i gael eu derbyn yn aelodau o senedd Dulyn (newydd-deb o ystyried y rhwystrau ethnig cadarn oedd wedi nodweddu'r drefedigaeth ganoloesol). Yn gyfnewid am y 'frait' hon, roedd yn rhaid i'r rheolwyr Gwyddelig brodorol ddod i mewn i 'heddwch y brenin' drwy ildio eu tiroedd a'u cael wedi'u ddychwelyd iddynt drwy ras y brenin i fod yn fwy derbyniol yn ffiwdalaidd, ac felly enillodd rheolwyr Gwyddelig brodorol y teitlau 'iarll' ac 'arglwydd' ac ati am y tro cyntaf. Roedd derbyn y 'Surrender and Regrant', fel yr adwaenid y polisi hwn, gan reolwyr oedd yn annibynnol de facto hyd hynny yn golygu ufudd-dod – hyd yn oed os mai dim ond mewn egwyddor ar y dechrau – i awdurdod eithaf y brenin, i Gyfraith Gyffredin Lloegr a dulliau Seisnig. Er gwaethaf y gwrthwynebiad a welwyd, bu'n bolisi grymus wrth sicrhau cydweithrediad llawer o'r rheolwyr Gwyddelig wrth seisnigo Iwerddon.

Yng nghanol y problemau gwleidyddol yn dilyn ymwahaniad Harri'r Wythfed oddi wrth Babyddiaeth, a natur fwyfwy Brotestannaidd Lloegr, cododd penderfyniad di-ildio ymysg llywodraethau a gweinyddiaethau Lloegr wedi hynny i wrthsefyll unrhyw dueddiadau i wrthryfel neu gael eu goresgyn o dramor, ac aethant ati i ganoli gweinyddiaeth a threfn gyfreithiol ledled holl diroedd coron Lloegr, boed hwy yn Lloegr, Cymru neu Iwerddon. Rhan ganolog o gyflawni hyn oedd y nod i drefnu Iwerddon yn siroedd (swydd) ar y model yn Lloegr gan felly roi modd cyflwyno cyfraith gyffredin Lloegr a fyddai yn ei dro yn hybu seisnigo a gwneud masnachu'n bosibl. Dyma'r hoelen olaf yn arch annibyniaeth yr arglwyddiaethau Gwyddelig ac roedd yn rhwym i arwain at wrthryfel mewn sawl achos. Er hynny, rhwystrwyd y gwrthryfel nid yn unig drwy fforffedu ystadau arglwyddi gwrthryfelgar a'u prif ddilynwyr ond hefyd drwy fforffedu'r holl dir o dan eu rheolaeth a'i drosglwyddo i dirfeddianwyr o Loegr y gellid ymddiried ynddynt. Dyma ddechrau ar raglen o wladychu (trefedigaethu) gan ymsefydlwyr Seisnig. Digwyddodd y trefedigaethu cyntaf ar diroedd Offaly a Laois yng nghanolbarth Iwerddon yn 1556 (yn eironig, o feddwl am hanes Iwerddon wedi hynny, digwyddodd hynny o dan y Catholigion pybyr, y Frenhines Mary a'i gŵr Brenin Phillip o Sbaen gan roi'r enwau trefedigaethol Offaly a Laois: Swydd y Brenin a Swydd y Frenhines). Llwyddodd Gerald FitzGerald, Iarll Desmond, un o ddeiliaid tir mwyaf Iwerddon, i ddigio Elizabeth I ac aeth ei diroedd yn fforffed yn 1568. Yn sgil ymdrechion gan hapfuddsoddwyr ac anturiaethwyr o Loegr i feddiannu'r tiroedd forffededig, ysgogwyd Gwrthryfel Cyntaf Desmond o dan James FitzMaurice (cefnder yr iarll). Parhaodd y

gwrthryfel hwn rhwng 1568 a 1573 gan ddinistrio poblogaeth Munster, ond daeth i ben yn y diwedd ar ôl i FitzMaurice ddianc i'r Cyfandir a thrwy adael i Iarll Desmond ddychwelyd i reoli ei diroedd. Dychwelodd FitzMaurice i Munster yn 1579 gyda chefnogaeth babaid a Sbaenaidd – gweithred a daniodd Ail Wrthryfel Desmond a barhaodd tan 1583 pan laddwyd yr iarll. Y tro hwn, wedi'u gorchfygu'n llwyr, collodd yr uchelwyr brodorol eu lle yng nghynllun cyntaf mawr trefedigaethu Lloegr ar Iwerddon: Trefedigaeth Munster. Enillodd Iarll Gerald yn ddiweddarach fri chwedlonol fel gwladgarwr Gwyddelig dilychwin a fyddai unwaith eto'n dychwelyd pan fyddai mawr angen cymorth ar y Gwyddelod gorthrymedig. Datblygiad mwy real o ran y dyfodol oedd bod Gwrthryfel Cyntaf Desmond wedi digwydd ar yr un pryd â'r Pab Pius V yn esgymuno Elizabeth I fel Brenhines Lloegr. Dyma'r tro cyntaf i Gatholigiaeth ymwneud â gwleidyddiaeth ac fe'i cysylltwyd â rhyddid Iwerddon yn erbyn Protestaniaeth y Saeson ymosodol. Cafwyd ymgais aflwyddiannus i drefedigaethu Ulster (yn ardal Belfast) yn y 1570au, a'r nod yno oedd brwydro yn erbyn dylanwadau Albanaidd cyn gymaint â'r Gwyddelod brodorol. Cafodd arweinwyr gorllewin Iwerddon eu trechu heb orfod defnyddio llawer o rym yn 1585 drwy Gyfansoddiad Connacht (*Composition of Connacht [Connaught]*) ac felly ni chafodd Armada Sbaen fawr o swcwr gan y Gwyddelod pan ddaeth ei gweddillion gorchfygedig at arfordir Iwerddon. Ulster bellach oedd rhanbarth annibynnol olaf Iwerddon ac ni fu'n hir cyn i ymyrraeth Llywodraeth Lloegr arwain y rheolwr brodorol mwyaf, Iarll Tyrone, Aodh ('Hugh') Ó Néill i wrthryfel. Roedd y gwrthryfel hyd yn oed yn fwy dinistriol na therfysgoedd Desmond a'r enw arnynt oedd y Rhyfel Naw Mlynedd (1594-1603). Yn Kinsale yn 1601 trechwyd ymgais gan y gwrthryfelwyr Gwyddelig i ymuno â lluoedd ymgyrchol Sbaen, a hyn oedd diwedd yr anghytundeb gan i Iarll Tyrone ac Ó Domhnaill, Iarll Tyrconnell ildio drwy Gytundeb Mellifont yn 1603 a chaniatáu hawl llywodraeth Lloegr i sefydlu siroedd a gweinyddu dros eu tiroedd (mae'n amlwg mai amheuaeth ynghylch bwriadau'r Saeson oedd y prif gymhelliad i'r ieirll ddianc dramor rai blynyddoedd yn ddiweddarach). Ys dywedodd John Davies, y Twrnaï Cyffredinol ar y pryd: "the clock of the civil government is now well set and all the wheels thereof do move in order; the strings of the Irish harp, which the magistrates do finger, are all in time and make a good harmony in the commonwealth."

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- COSGROVE, Art. "Hiberniores ipsis Hibernis". Yn Art Cosgrove & Dónal McCartney (goln.). 1979. *Studies in Irish History: presented to R. Dudley Edwards*. (Naas: Leinster Leader), 1–14.
- DUFFY, Seán (gol.). 2004. *Medieval Ireland: an Encyclopedia*. (New York: Routledge).
- HOLDEN, Brock. 2005. "Feudal frontiers?" Colonial societies in Wales and Ireland 1170–1330". Yn *Studia Hibernica* 33.61–79.

- *NICHOLLS, Kenneth W. 2003. *Gaelic and Gaelicized Ireland in the Middle Ages*. (Dublin: Lilliput). (arg. 1af 1972).
- SIMMS, Katharine. 1987. *From Kings to Warlords: the Changing Political Structure of Gaelic Ireland in the Later Middle Ages*. (Woodbridge: Boydell).

4.6 YR ALBAN (11G–15G)

Sefydlwyd teyrnas unedig y Sgotiaid a'r Pictiaid (S. *Scotland*, Ll. *Scotia*) yn y 9G o dan frenhinoedd Gaeleg Albanaidd a'i chanolbwynt brenhinol yn Scone, ond nid oedd ond yn cynnwys tiriogaethau tir mawr yr Alban i'r gogledd o'r Clyde a'r Forth. O'r rhanbarth hon, sefydlodd yr Alban ei hun yn rym dros Gymbriaid Strathclyde yn 890, ar ôl i'r Cymbriaid gael eu dinistrio gan ymosodiadau'r Llychlynwyr. Ymhellach i'r dwyrain, roedd Lleuddiniawn (Lothian) yn Saesneg ei hiaith ond gan fod y Llychlynwyr yn tra-arglwyddiaethu yno yn sgil ymosodiadau aml o'r 9G ymlaen, daeth y rhanbarth hwn (a'i phrifddinas Caeredin yn y pen draw) yn rhan o deyrnas yr Alban ar ôl brwydr Carham yn 1018. Yn ei llwyddiant i ehangu ei thiriogaethau yn sgil dinistr y Llychlynwyr yn y 9G-10G, teyrnas yr Alban yw'r cyfatebol yng ngogledd Prydain i deyrnas Wessex Alfred yn y de, gan ehangu ar draul Daenfro (Danelaw) y Llychlynwyr i sefydlu teyrnas gyntaf Lloegr yn y 10G. Erbyn dechrau'r 11G, oni bai am yr ynysoedd a reolid gan y Llychlynwyr ac arfordiroedd y gorllewin a gogledd dan ddylanwad y Llychlynwyr, roedd teyrnas yr Alban yn fras iawn wedi pennu ei ffiniau deheuol â Lloegr.

Gan ein hatgoffa o Lydaw yn yr un cyfnod, roedd y cymysgedd ethnig (Gaeliaid, Brythoniaid, Llychlynwyr, Saeson) yn peryglu cadwraeth ethnigrwydd gwarcheidiol y deyrnas. Yn y 1070au, cafodd Malcolm III ei sefydlu mewn canolfan frenhinol yng Nghaeredin, lleoliad a oedd yn draddodiadol yn ardal Saesneg ei hiaith. Priododd ef â Margaret, nith brenin blaenorol Lloegr, ac yn sgil mewnlifiad o ffoaduriaid pwysig oedd yn ffoi rhag concwest y Normaniaid yn Lloegr gwyrodd y llys i ddefnyddio'r Saesneg. Ar ôl marwolaeth Malcolm yn 1093 bu rhyfel cartref rhwng meibion Margaret ac aelodau eraill o deulu Malcolm III oedd yn gwrthwynebu'r dylanwadau estron. Yn wir cynorthwyodd brenin Lloegr feibion Malcolm i ailgipio a chadw coron yr Alban. O dan un o'r meibion hyn, sef David I (rh.1124-53), y daeth y Normaniaid i'r Alban, nid fel concwerwyr ond fel gwesteion brenhinoedd yr Alban er mwyn trechu cyrion afreolus ei deyrnas. Ffrengigwyd y deyrnas, a'i seisnigo yn y pen draw, wrth i frenhinoedd yr Alban yn y 12G nid yn unig wahodd pendefigion a milwyr, ond hefyd glerigwyr a bwrdeisiaid i boblogi'r sefydliadau mynachaid a threfol newydd (bwrdeistrefi, *burghs*). Ymddengys nad oedd y broses o seisnigo a orlifodd i Strathclyde ac ymgripio fyny arfordir y dwyrain wedi digwydd mor gyflym ag y darlunnir ar adegau, serch hynny erbyn y 14G roedd arfordir y dwyrain hyd at Aberdeen yn siarad Saesneg (y math Albanaidd) ac roedd yr hollt gyfarwydd rhwng yr Ucheldiroedd Gaelaidd

a'r Iseldiroedd Seisnig wedi'i chreu. Ymddengys nad oes amheuaeth fod y seisnigo yn yr Alban yn ystod y cyfnod hwn wedi ymledu o'r *burghs* yn ogystal ag wrth ymwneud fwyfwy â'r rhwydweithiau masnach Ewropeaidd yn ystod y cyfnod economaidd fywiog hwn. Er gwaethaf y seisnigo, roedd brenhinoedd yr Alban a'r uchelwyr yn dal yn ymfalchïo yn eu llinach Gaelaidd a thrwy gydol y cyfnod hwn ni cheir awgrym o dyndra rhwng y cenhedloedd. Yn wleidyddol, yn y 12G-13G, roedd brenhinoedd yr Alban yn brysur yn bennaf yn gorchfygu a threchu cyrion yr Alban oedd â llinachau brodorol ac yn frenhinoedd â'u hawliau eu hunain, ac felly ar ôl brwydro a barhaodd am sawl cenhedlaeth, trechwyd Moray yn y gogledd a Galloway yn y de-orllewin yn y diwedd yn y 1230au. Yn y gogledd pell, meddiannwyd tiroedd helaeth Sutherland yn y 1230au oddi wrth ieirll Llychlynnaidd Ynysoedd Erch/*Orkney* – cwtogwyd ar eu daliadau ar y tir mawr i Caithness (sicrhawyd Ynysoedd Erch, Caithness a Shetland yn y diwedd gan yr Alban o Ddenmarc yn 1470). Roedd y brenhinoedd Norwyaidd wedi meddiannu sofraniaeth dros ynysoedd arfordir y gorllewin, gan eu hildio i goron yr Alban yn 1266 yng Nghytundeb Perth. Cafodd (is)frenhinoedd yr Ynysoedd – disgynyddion y sylfaenydd o'r 12G, Somerled (*Gaeleg yr Alban Somhairle*), eu troi yn arglwyddi'r Ynysoedd ond parhaodd yr ardal gyfan hon yn llywodraeth lled-annibynnol hyd ddiwedd yr Oesoedd Canol ac iddynt gysylltiadau llac yn unig â'r Alban. Yn sgil llyncu Ynysoedd Erch yn 1470 a'u tiroedd dibynnol Caithness a Shetland, Arglwyddiaeth Gaeleg yr Ynysoedd oedd yr unig diriogaethau oedd yn parhau'n annibynnol ar Goron yr Alban, ac yn wir ymestynnai dylanwad Arglwyddiaeth yr Ynysoedd dros dipyn o arfordiroedd gorllewinol tir mawr yr Alban, a hwythau'n bell o'r canolfannau grym, ond daeth eu cwmp hwythau hefyd yn 1493.

Nid ymddengys fod seisnigo'r llywodraeth frenhinol ac mewnwthiad llawer o Eingl-Nomaniaid a Saeson i'r Alban yn y cyfnod rhwng y 1070au a chanol y 15G wedi arwain at gymaint o densiwn ethnig ar yr un raddfa ag y cawn yng Nghymru ac Iwerddon. Efallai fod hyn yn fwy o dystiolaeth nag y gellid disgwyl i'n ffynonellau prin ei darparu, ond – yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n bodoli – gellid dadlau bod diwedd yr Oesoedd Canol yn gyfnod o addasu rhwng trai perfeddwlad Gaelaidd y deyrnas ac ymlediad y prosesau seisnigo, a bod rhyfeloedd ac anghydfodau wedi'u hysgogi gan anghydweld lleol yn hytrach nag anghydweld ethnig. O'r 15G ceir ail gyfnod – yn para hyd at 1746 – a gellir galw'r cyfnod hwn yn gliriach yn gyfnod o fewnwthiad a gorchfygu (os nad concwest lwyr).

Llyfryddiaeth Ddethol (* gweithiau arweiniol a argymhellir)

*BARROW, G. W. S. 1981. *Kingship and Unity: Scotland 1000–1306*. (Edinburgh: Edinburgh University Press).

- DUNCAN, A. A. M. 2002. *The Kingship of the Scots 842–1292: Succession and Independence*. (Edinburgh: Edinburgh University Press).
- *MACLEOD, John. 1996. *Highlanders: a History of the Gaels*. (London: Hodder & Stoughton). (Penodau 3–6).
- ORAM, Richard. 2004. *David I: The King Who Made Scotland*. (Stroud: Tempus).
- SELLAR, W. D. H. 1989. 'Celtic law and Scots law: survival and integration'. Yn *Scottish Studies* 29.1–25.

4.7 UCHELDIR YR ALBAN (15G–18G)

Drwy gwmp, neu'n hytrach dorri pen, Arglwydd yr Ynysoedd yn 1493, cafodd brenin yr Alban wared ar wrthwynebydd posibl ac fe lwyddodd – mewn egwyddor ond o'r braidd yn ymarferol – i wneud arglwyddi dibynnol yr arglwyddiaeth yn uniongyrchol atebol i frenin yr Alban a'i lywodraeth ganolog yng Nghaeredin. Er hynny roedd diorseddu Arglwydd yr Ynysoedd ond wedi symud y broblem gan i'r arglwyddi dibynnol (llawer ohonynt yn ganghennau iau i dylwyth y MacDonald ac felly'n ddisgynyddion i Somerled) barhau i herio awdurdod y brenin. Yn gyffredinol roedd brenhinoedd yr Alban yn rhy brysur yn rhoi sylw i nifer o faterion eraill, ac roeddynt yn gadael gorchfygu llwythi anhydrin yr Ucheldiroedd i lwythi eraill oedd yn agosach at ganolfannau dwyreiniol pŵer yr Alban. Mae hyn yn esbonio ymlediad llwyth y Campbell o Argyll ar draul eu cymdogion i'r gorllewin a'r elyniaeth barhaus rhyngddynt a llwythi amrywiol y MacDonalds a ystyriai eu hunain yn etifeddion cyfreithlon Arglwyddiaeth yr Ynysoedd. Ni ddilynwyd taith gan Iago V yn 1540 hyd nes y daeth ei fab Iago VI (yn ddiweddarach Iago I o Loegr) i oed, a bu iddo yntau rhwng 1596 a 1625 yrru chwe chyrch milwrol i orchfygu arglwyddi ystyfnig yr Ucheldiroedd. Cafodd y polisi beth llwyddiant, gan y gorfodwyd penaethiaid yr Ucheldir i fynd bob blwyddyn i'r llys yng Nghaeredin a daethant yn gynyddol yn fwy Seisnigaidd. Serch hynny oherwydd bod yr Ucheldiroedd mor anghysbell a'i bod mor anodd mynd yno, câi penaethiaid yr Ucheldir ryw fath o led-annibyniaeth na fodolai yn unrhyw le arall yn ynysoedd Prydain yn y 17G-18G. Anwybyddid achosion sifil yn aml ar raddfa fawr a chafwyd y frwydr olaf rhwng y llwythi rhyfelgar yn 1688 yn Braes o' Lochaber rhwng Macdonalds Keppoch a'r Mackintoshes. Roedd rhyfeloedd mwyaf yr Ucheldiroedd yn gysylltiedig â thrafferthion gwleidyddol mawr a wynebai coron Prydain, sef ymgyrch frenhinol 1644-47 o dan Iarll Montrose, ymgyrch frenhinol Jacobaidd yn 1689-91 o dan Viscount Dundee a gwrthryfeloedd y Jacobiaid wedi hynny yn 1715-16, 1719, 1745-46. Y gwrthryfel olaf oedd un Bonnie Prince Charlie a ddaeth i ben ym mrwydr Culloden yn 1746, a dyma'r gorchfygu milwrol olaf ar yr Ucheldirwyr a'r gwaharddiad swyddogol ar wisg yr Ucheldiroedd (1746) ac ar bwerau lled-annibynnol yr arglwyddiaethau Gaelaidd (1748). Cyfansoddwyd anthem genedlaethol gyntaf Lloegr 'God save

the King' yn 1745 yn ystod goresgyniad Lloegr gan Bonnie Prince Charlie a'i ddilynwyd o'r Ucheldiroedd. Roedd yr anthem yn wreiddiol yn cynnwys chweched pennill olaf oedd yn wrth-Albanwyr: "Lord, grant that Marshal Wade, / May by thy mighty aid, / Victory bring. / May he sedition hush and like a torrent rush, / Rebellious Scots to crush, / God save the King."

Er inni ganolbwyntio yn yr hanes uchod ar orchfygu tiriogaethau Gaeleg eu hiaith gan frenhinoedd Saesneg yr Alban dros gyfnod o chwe chanrif dros yr 11G-18G, eto ni ddylem anghofio'r ymdrech sylfaenol arall a wynebai brenhinoedd yr Alban a'u cymdogion deheuol yn Lloegr. Er gwaethaf rhai cyrchoedd Albanaidd yng ngogledd Lloegr, a oedd yn ymwneud yn fwy â gwleidyddiaeth fewnol Lloegr nag unrhyw elyniaeth hirsefydlog rhwng y ddwy wlad, oherwydd cydnabuwyd teyrnas yr Alban yn deyrnas gyfreithiol, gyfeillgar – boed iau – i Loegr. Newidiodd hyn dan deyrnasiad Edward I ac argyfwng olyniaeth yr Alban ar ôl 1286, gan arwain at ryfeloedd dinistriol dros Annibyniaeth yr Alban. Ar ôl hynny prynodd yr Alban ei hannibyniaeth yn ddud gan gytuno â'r gynghrair 'Auld Alliance' gyda Ffrainc yn erbyn Lloegr. Daeth yr elyniaeth rhwng yr Alban a Lloegr i ben drwy sefydlu Protestaniaeth drwy gymorth y Saeson yn 1560 ac esgyniad Iago VI o'r Alban i goron Lloegr fel Iago I. Mae'n anghywir ystyried gorchfygu Gaeliaid Ucheldiroedd yr Alban fel gwaith y Saeson, yr oedd wedi dechrau sawl canrif cyn hynny o dan frenhinoedd yr Alban (oedd wedi'u seisnigo digon gwir). Yn ddigon diddorol, roedd y chwerwder a ddaeth yn sgil ymdrech y Saeson i drechu teyrnas yr Alban yn ystod rhyfeloedd Annibyniaeth yr Alban wedi dwysáu hunaniaeth siaradwyr Saesneg yr Alban i'r fath raddau nes ei bod yn well ganddynt erbyn y 15G ddefnyddio'r term Scoteg (*Scots*) am eu hiaith yn hytrach na'r Inglis (*English*) a ddefnyddid cyn hynny. Yr enw a roddwyd ganddynt nawr ar yr Aeleg, sef y Scoteg wreiddiol, oedd Erse (*Irish*). Dim ond yn yr 19G y daeth *Gaelic* i gymryd lle'r cysylltiadau difriol o beidio â bod yn Albanaidd oedd yn y term Erse (er rhesymwaith ieithyddol cyfiawnadwy yr ail derm). Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol roedd siaradwyr Gaeleg yn ddigon bodlon i labelu'u hunain a'u cymdogion Saesneg ar yr Iseldir yn *Albannaich* o'i gymharu ag *Eireannaich* ('Gwyddelod') a *Sasannaich* ('Saeson') hyd yn oed os oedd yr un Iseldirwyr hyn yn eu hiaith bod dydd yn *Gaill* ('estroniaid'). Mae hyn oll yn enghraifft glir o hunaniaethau amnyth (*nested identities*) o'i gymharu â phegynnu lleihaol 'un ai-neu' wrth ystyried hunaniaeth.

Daeth teyrnas yr Alban yn swyddogol yn Brotestannaid yn 1560. Ffynnodd Calfiniaeth o dan ddylanwad y pregethwr tanllyd o Gaeredin John Knox, ond fe'i daliwyd yn fuan mewn anghydfod ynghylch y grym y dylasai fod gan esgobion yn erbyn y grym y dylasai fod gan gynulleidfaoedd, arweiniodd yr anghydfod hwn at ymraniad rhwng Esgobaethwyr (cefnogwyr y brenin fel arfer) a Phresbyteriaid. Erbyn 1584 roedd y Presbyteriaid wedi ennill a chât Kirk ('Eglwys') yr Alban ei rhedeg gan Gynulliad Cyffredinol. Ar ôl dod yn frenin Lloegr yn ogystal â'r Alban yn 1603, gwaharddodd Iago I y Cynulliad Cyffredinol rhag cyfarfod gan roi ei

gefnogaeth i'r esgobion. Gwnaed y sefyllfa hon yn waeth gan Siarl I – ceisiodd ef orfodi Llyfr Gweddi Cyffredin Anglicanaidd ar yr Albanwyr yn 1638 ac arweiniodd hyn at Gyfamod Cenedlaethol yr Alban a Rhyfel yr Esgobion yn erbyn y defodau Esgobyddol a'r rheiny yn eu tro wedi ysgogi Rhyfel y Tair Teyrnas (a oedd yn cynnwys Rhyfel Cartref Lloegr) y dienyddwyd Siarl I ar ei ddiwedd. Rheolaeth Bresbyteraidd a ddominyddai Eglwys yr Alban yn ystod rhyfeloedd a rhyngdeyrnasiad canol y 17G, ond pan ailorseddwyd Siarl II daeth rheolaeth Esgobyddol yn lle Presbyteriaeth. Gwahaniaethwyd yn erbyn yr Anghydfurfwr Presbyteraidd a'u herlid yn y cyfnod hwn. Dim ond pan ddaeth y Protestant William II yn frenin yn 1689 y rheolwyd Eglwys yr Alban gan Bresbyteriaeth. Dyma'r adeg y bu i'r Esgobaethwyr ad-drefnu'u hunain yn enwad Anghydfurfiol oedd yn annibynnol ar y wladwriaeth (ac i bob golwg yn Jacobaidd, sef yn gobeithio y byddai llinach y Stiwartiaid yn dychwelyd yn sofraniaid cyfreithiol er gwaethaf y ffaith fod y rhain erbyn diwedd y 17G yn Gatholig). Ar y cyfan roedd yr Ucheldirwyr yn geidwadol mewn materion crefyddol ac yn y 18G parhâi llawer o ardaloedd yn deyrngar i Esgobwriaeth neu hyd yn oed i Gatholigiaeth. Cryfhawyd goroesiad Catholigiaeth gan genadaethau Gwrthddiwygiad Catholig y Ffransisiaid Gwyddelig ar ddechrau 1619, wedi'u cyfarwyddo o gyffiniau Ballycastle yn Swydd Antrim, Iwerddon, ac ar eu hôl hwy yn 1653 daeth cenhadaeth Albanaidd fwy brodorol yn ddiweddarach o dan esgob o'r Alban. I ddatrys problemau addysgu offeiriaid mewn colegau yn bell i ffwrdd ar y cyfandir, sefydlwyd coleg diwinyddol ym Morar yn 1712 a newidiodd y coleg ei leoliad sawl gwaith. Roedd yr ardaloedd oedd yn Gatholigion cryf yn y 17G yn Gatholigion oherwydd yr amddiffyniad a roddid i'r grefydd hon gan arglwyddi Ucheldirol oedd yn gydymdeimladol â'r achos Jacobaidd.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- *FRY, Michael. 2005. *Wild Scots: Four Hundred Years of Highland History*. (London: Murray). (Penodau 1–6).
- MACINNES, Allan I. 1996. *Clanship, Commerce and the House of Stewart, 1603–1788*. (East Linton: Tuckwell).
- *MACLEOD, John. 1996. *Highlanders: a History of the Gaels*. (London: Hodder & Stoughton). (Penodau 3–6).
- PREBBLE, John. 1961. *Culloden*. (London: Pimlico).